



Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
10 Tachwedd 2016, S4C Caerdydd

Cyfarfod Rhif 403

Presennol:	Huw Jones John Davies Hugh Hesketh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd yr Awdurdod) (Prif Aelod Anweithredol yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Rachel Evans Amanda Rees Phil Williams Bethan C. Williams Carys Evans	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Dirprwy Gyfarwyddwr Cynnwys a Darlledu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Dadansoddi) (eitem 6)
Ymddiheuriadau:	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Gair o groeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 402 (13.10.16) a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 402 (a gynhaliwyd ar 13.10.16) a nodwyd y canlynol:

3. **Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.
Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau
a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a gofynnwyd am ddiweddariad ar y materion canlynol yn deillio o'r gofrestr a'r cofnodion:

Pwynt 6.1 – Diweddariad Rhag-archebu

[Crynodeb: Nododd IHJ fod ystyriaeth bellach wedi ei roi i gynnwys y trefniadau rhag-archebu a'i fod yn bwriadu disgwyl nes y bydd nifer o gyfresi sydd yng nghanol eu darlledu wedi gorffen cyn gwneud unrhyw

benderfyniadau terfynol am eu rhag-archebu. Roedd AR wedi cyfarfod llawer o'r cwmnïau cynhyrchu, ac wedi cychwyn y broses o gyflwyno adborth ar berfformiad eu cynnwys. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cyfarfodydd hyn.]

Pwynt 5 – Cyfarfod gyda TAC

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at y drafodaeth yn y cyfarfod gyda TAC. Esboniodd IHJ nad oes modd yn gyfreithiol i S4C orfodi cwmnïau i ymaelodi gyda TAC. Roedd hawlfraint y cytundebau safonol yn berchen i TAC ac nid S4C.]

Pwynt 7.1.1 – Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli

Nodwyd fod dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'n amodol ar amserlen negydu cytundeb y TSA. Roedd swyddogion yn anelu i gyflwyno drafft i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr, ond nodwyd fod hyn yn ymddangos yn uchelgeisiol.

[Crynodeb: Esboniwyd fod trafodaethau'n parhau ynghylch nifer o elfennau'r cynllun Cytleoli. Mae sylw penodol ar hyn o bryd i drafod y ddarpariaeth TG. gan gynnwys sicrhau fod y diffiniad o wasanaethau TG yn glir o ran y gwasanaethau fyddai'n cael eu darparu gan y BBC a pha wasanaethau fyddai'n parhau i gael eu darparu gan S4C.]

Pwynt 9– Penodi Archwilwyr Allanol

[Crynodeb: Holwyd a oedd adborth wedi ei gynnig i'r cwmnïau ac eglurwyd ein bod yn disgwyl cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r penodiad. Nodwyd fod argymhelliad gan swyddogion y DCMS wedi ei gynnwys ym mlwch coch yr Ysgrifennydd Gwladol yr wythnos hon.]

Pwynt 5 - Aelodaeth y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli

Nodwyd yn sgîl diweddu tymor MWJ fel aelod o'r Awdurdod mai dim ond un aelod bellach sydd i'r pwyllgor hwn ar hyn o bryd sef JD. Gofynnwyd i Aelodau fyddai â diddordeb mewn ymuno gyda'r Pwyllgor i roi gwybod i Gadeirydd yr Awdurdod.

Pwynt 16 – Cytundeb Tendr Is-deitlo

Nodwyd fod gwahoddiad tendr y Cytundeb Is-deitlo newydd wedi ei gyhoeddi, a'r gobaith oedd y byddai arbedion ariannol yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol

[Crynodeb: Cyfeiriodd at y cyfarfod a gafodd IHJ, PW ac ef gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Karen Bradley AS. Nodwyd fod y cyfarfod yn gynnes ac adeiladol ac yn gyfle pwysig i S4C gyflwyno'i hun i'r Ysgrifennydd Gwladol newydd ac i gyflwyno nifer o faterion sy'n bwysig i S4C. Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai llythyr yn ymwneud â phwerau benthyg S4C yn cael ei ddanfon yn fuan.]

4.2 **Paratoi ar gyfer Diwrnod i Ffwrdd fis Rhagfyr**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Ddiwrnod i Ffwrdd fis Rhagfyr gan nodi ei fod yn awyddus i'r Awdurdod drafod pwrpas a strwythur y cyfarfod, yn unol ag argymhelliad PWC, ac er mwyn sicrhau cyfle priodol i'r Awdurdod drafod y weledigaeth a fydd maes o law yn cael ei chyflwyno i Adolygiad 2017. Roedd yn awyddus i ffocws y cyfarfod fod ar weledigaeth hir dymor yr Awdurdod ar gyfer S4C.

Nodwyd y bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle amserol i AR a RhaD gyflwyno Strategaeth Cynnwys a Digidol newydd.

[Crynodeb: Nodwyd y byddai nifer o bapurau cefndirol, gan gynnwys tri a gomisiynwyd yn arbennig, yn cael eu darparu ar gyfer yr Aelodau, ac y byddai'r rhain yn cael eu darparu cyn bo hir er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau eu hystyried ymlaen llaw.]

Bydd nifer o bapurau a luniwyd ar gyfer Diwrnod i Ffwrdd Tachwedd 2015 hefyd yn cael eu darparu eto, gan gynnwys papurau Adnabod y Gynulleidfa.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i gyflwyno crynodeb o'r deilliannau y mae S4C yn dymuno'u sicrhau o'r Adolygiad fel man cychwyn trafodaeth y diwrnod i ffwrdd.

4.3 **Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cynnig arweiniad ynglŷn â gobeithion S4C o'r Adolygiad a phenawdau neu "fodel i'w drafod" o weledigaeth i'w chyflwyno, ynghyd â chrynodeb/pwyntiau bwled o'r ddogfen i'w gyflwyno i'r Adolygiad.**

4.4 **Gofynion Cworwm Rheolau Sefydlog yr Awdurdod**

Cyflwynodd y Cadeirydd argymhelliad parthed addasu gofynion cworwm yr Awdurdod yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod fis Hydref.

Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref, penderfynwyd y dylid ystyried darpariaethau Cworwm Rheolau Sefydlog yr Awdurdod er mwyn sicrhau fod yr Awdurdod yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod presennol tra bod nifer aelodau'r Awdurdod yn is na'r arfer.

Mae'r Rheolau Sefydlog presennol yn nodi mai 4 aelod yw cworwm cyfarfodydd yr Awdurdod, ac mae Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau'r Awdurdod (heb gynnwys y Bwrdd Masnachol) yn nodi mai cworwm ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau'r Awdurdod yw 2 aelod (heb gynnwys y Cadeirydd, sy'n arsylwi yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau).

Gyda thymor CB wedi dod i ben, tymor MWJ yn dod i ben ym mis Tachwedd, a sedd AE eisoes yn wag, bydd aelodaeth yr Awdurdod yn lleihau i 6 aelod. Ni wyddwn ychwaith am ba hyd y bydd ECS yn gallu parhau yn aelod o'r Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Ymddiriedolaeth y BBC.

Gyda nifer yr Aelodau'n debygol o leihau i'r fath raddau lle mae'n bosibl y gallai fod yn anodd cynnal cyfarfodydd yr Awdurdod, argymhellodd y Cadeirydd y byddai'n ddoeth i ystyried llacio ar ofynion cworwm yr Awdurdod hyd nes y bydd aelodau newydd wedi eu penodi a'u bod wedi ymgymryd â'u dyletswyddau. Ni fyddai'n ymarferol i newid gofynion cworwm y pwyllgorau, gan mai dau aelod oedd y gofynion presennol.

Cymeradwydd yr Awdurdod yr argymhelliad canlynol:

(i) Y dylid addasu gofynion cymal rhif 4.13 Rheolau Sefydlog yr Awdurdod i leihau nifer cworwm yr Awdurdod o 4 aelod i 3 aelod hyd nes y bydd aelodau newydd wedi eu penodi ac wedi ymgymryd â'u dyletswyddau;

(ii) Y dylid adolygu'r mater yn dilyn penodi aelodau newydd; ac

(iii) Na ddylid newid gofynion cworwm Pwyllgorau'r Awdurdod na'r Bwrdd Masnachol.

4.5 Tymor Aelodaeth

Nododd y Cadeirydd mai dyma oedd cyfarfod olaf MWJ yn Aelod o'r Awdurdod, gan i'w thymor ddirwyn i ben y mis hwn. Diolchodd y Cadeirydd iddi ar ran yr Awdurdod a'r swyddogion am ei chyfraniad pwysig - fel aelod a chadeirydd pwyllgor i waith yr Awdurdod dros y pedair blynedd diwethaf. Nododd bod ei gwybodaeth drylwyr am feysydd darlledu a chyrrff cyhoeddus ynghyd â'i hangerdd am waith S4C wedi bod yn gaffaeliad yn ystod cyfnod pwysig iawn i'r sianel.

Diolchodd MWJ i'r Aelodau a'r swyddogion a nododd ei bod wir wedi mwynhau bod yn Aelod o Awdurdod S4C a dymunodd yn dda i'r sianel yn y cyfnod sydd i ddod.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 Canolfan yr Egin

[Crynodeb: Nodwyd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau cais caniatâd cynllunio ar gyfer Yr Egin. Roedd swyddogion y Brifysgol yn parhau i drafod cais grant gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac roeddynt yn disgwyl derbyn ymateb yn fuan.]

5.2 Prosiectau Masnachol

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at y paratodau ar gyfer lansio prosiect newydd a nodir ym mhapurau'r Prif Weithredwr. Nodwyd fod y gwaith paratoi yn mynd rhagddo'n hwylus ond bod penderfyniad wedi ei gymryd i beidio gwneud cyhoeddiad am y tro. Bwriedir felly i gyhoeddi'r cynllun yn y flwyddyn newydd.]

5.3 Cyfarfodydd gyda gwleidyddion

Cyfeiriodd IHJ at ei gyfarfodydd diweddar gyda gwleidyddion, a nododd fod cefnogaeth drawsbleidiol i waith S4C i'w weld yn glir. Holwyd a oedd rhai aelodau etholedig nad oedd yn gefnogol. Esboniodd IHJ fod pob aelod yr oedd wedi eu cyfarfod yn gefnogol i waith S4C. Nodwyd diolch yr Awdurdod am waith IHJ gyda'r gwleidyddion.

6. Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi, Chwarter 2 2016/17

[Crynodeb: Cyflwynodd AR a CE yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 2 2016/17 a chafwyd trafodaeth am y canfyddiadau a'r arlwy yn ddiweddar. Mae'r swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn ystyried esblygiad y naratif cyhoeddus er mwyn esbonio'r patrymau

gwylio. Cafwyd trafodaeth am yr heriau y mae S4C yn eu hwynebu o ran diffinio'r cynulleidfaoedd targed. Cyfeiriwyd at ystod yr arlwy'w wledig a phwysigrwydd sicrhau fod yr arlwy'w apelio at y gymdeithas cefn gwlad gyfoes. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i nodi perfformiad congffeini beunyddiol yr amserlen (megis PYC, Heno a Newyddion) ar wahân yn yr Adroddiad Dadansoddi er mwyn rhoi darlun o berfformiad darpariaeth greiddiol yr oriau brig. Fe fydd CE yn ystyried sut i gyflawni hyn yn yr adroddiad chwarterol nesaf.]

7. **Adroddiad Cyfathrebu, Chwarter 2 2016/17**

[Crynodeb: Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 2 2016/17. Cyfeiriodd at yr arbrawf o ddarlledu gigs Maes B ar safle we a Facebook S4C ac Ochr 1. Esboniodd fod y ffigyrau'n cymharu'n ffafriol gydag elfennau eraill o ddarpariaeth ar-lein S4C. Roedd stondin S4C yn orlawn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer y digwyddiad a gynhaliwyd gydag Ian Gwyn Hughes ac Osian Roberts, a nodwyd fod y gynulleidfa'n gwerthfawrogi'r sylw a roddwyd i'r ddau gan S4C. Cafwyd trafodaeth am e-byst misol S4C sy'n hyrwyddo darpariaeth y sianel.]

Penderfynwyd y byddai IHJ yn darparu adroddiad cynnydd i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2017. Bydd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar faterion yn cynnwys y canlynol:

- i. Darparu e-bost rheolaidd i'r gwylwyr - pwrpas ac amllder;
- ii. Datblygu'r bas-data gwylwyr;
- iii. Safle we newydd;
- iv. Personoli / login.

8. **Adroddiad Ariannol, Chwarter 2 2016/17**

[Crynodeb: Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol Chwarter 2 2016/17. Cafwyd trafodaeth am Ystâd Llanisien a'r cyngor diweddaraf am gais cynllunio.]

Balansau i'w dwyn ymlaen

Holwyd a oedd y patrwm o ran balansau i'w dwyn ymlaen a lefelau stoc yn debyg i flynyddoedd cynt, ac esboniodd SW fod y patrwm a'r symiau y bwriedir eu dwyn ymlaen yn dilyn patrwm lled-sefydlog. Diolchwyd i SW am ei chyflwyniad.

9. **Cyflwyno Cofnodion drafft cyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 28ain o Fedi i'r Awdurdod er gwybodaeth. Nodwyd fod adroddiad llafar wedi ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref.

10. **Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth fer am rhai o'r rhaglenni a chyfresi a ddarllledwyd yn ddiweddar.]

11. **Adroddiad y Wifren**

Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren er gwybodaeth.

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y Wifren i'w cyflwyno i sylw'r Awdurdod.

13. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfodydd nesaf: Dydd Iau 12 Ionawr, 2017